# Cofnodion y Bwrdd wedi'u cadarnhau

**Teitl y Cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Swyddfeydd Cyngor Ceredigion, Aberystwyth

**Dyddiad y Cyfarfod:** 10 Mai 2019

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru)

Hedd Pugh (NFU Cymru)

Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)

Tudur Parry (UAC)

Bernard Griffiths (Swyddog Polisi Defnydd Tir UAC)

Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

Marc Williams (CNC)

Martyn Evans (Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru, CNC)

Helen Haider (CNC)

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** Dim

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Helen Haider (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

Marc Williams (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

**Ymddiheuriadau:**

Ruth Jenkins (Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol)

Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol CNC ar gyfer Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)

Anthony Geddes (Confor)

Tim Kirk (Confor)

Sian Thomas (CFfI)

Bob Vaughan (Rheolwr Coedwigoedd a Ffermio Tir Cynaliadwy, CNC)

Chris Blake, (Aelod o Fwrdd CNC)

Russell De'Ath (CNC)

Nia Lloyd (CFfI)

Michelle Van-Velzen, CNC)

## Eitem 1 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1. Croesawodd Zoe Henderson Marc Williams, CNC, i'r fforwm. Cafwyd nifer o ymddiheuriadau gan CNC a CFfI Cymru, ac nid oedd cynrychiolwyr o Confor yn gallu bod yn bresennol chwaith.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

2. Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau i gofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, a nodwyd bod y rhain bellach wedi cael eu gosod ar dudalen We Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

3. Mewn perthynas â Phwynt Gweithredu 7 o'r cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, (Rhannu manylion cyswllt rheolwyr coedwigaeth allweddol CNC â holl aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru), rhoddwyd enwau'r rheolwyr coedwigaeth ar lafar i'r aelodau a nodwyd y byddai rhestr gyswllt yn cael ei dosbarthu.

4. O ran Pwynt Gweithredu 8 o'r cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, nodwyd nad oedd y sawl a fydd yn rhoi diweddariadau i Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi cael ei gadarnhau eto gan Fforwm Rheoli Dŵr Cymru.

5. Gan nad oedd unrhyw gynrychiolwyr o'r sector coedwigaeth yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, nid oedd modd rhoi diweddariadau ar gynnydd mewn perthynas â Phwyntiau Gweithredu 12-16 o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 6 Chwefror.

   ***PG01: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwyntiau gweithredu sy'n weddill o gyfarfod diwethaf Fforwm Rheoli Tir Cymru a gynhaliwyd ar 6 Chwefror (Pawb)***

## Eitem 3 Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth

6. Cyn y cyfarfod, rhannwyd dogfen Cylch Gorchwyl ddrafft â'r aelodau. Ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â chynnwys y Cylch Gorchwyl a nodwyd y bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi ar dudalen We Fforwm Rheoli Tir Cymru.

7. Cyn iddo ymddeol, daeth cais i law Brian Pawson gan Emyr Williams, Parc Cenedlaethol Eryri, yn ei wahodd i ymuno â Fforwm Rheoli Tir Cymru. Cafwyd

trafodaeth ynghylch y cais i drafod a ddylid ehangu ar aelodaeth y fforwm ac a oedd y Parc Cenedlaethol yn bodloni amodau'r Cylch Gorchwyl. Nodwyd bod Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi cael ei sefydlu'n wreiddiol i alluogi CNC i rannu gwybodaeth â'r aelodau sy'n cynrychioli ffermwyr a pherchnogion tir. Ychwanegwyd bod sefydliadau sy'n cymryd rhan yn Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cynrychioli aelodau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli tir, fel y manylir arno yn nogfen y Cylch Gorchwyl. Gwrthodwyd ceisiadau blaenorol gan sefydliadau a oedd yn gweithio gyda ffermwyr, a hynny ar sail yr egwyddor nad oeddent yn cynrychioli ffermwyr. Cytunwyd y dylid rhannu manylion y cais gan Emyr Williams â'r aelodau ac y byddai penderfyniad terfynol ynghylch yr aelodaeth yn cael ei wneud yng nghyfarfod mis Medi o Fforwm Rheoli Tir Cymru. Yn y cyfamser, byddai ymateb dros dro yn cael ei anfon at Emyr Williams.

8. Cafwyd trafodaeth ynghylch y manteision o gael cynrychiolydd o adran rheoli tir Llywodraeth Cymru (LlC) i fynychu cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol, a hynny wrth baratoi at ymgynghoriad pellgyrhaeddol LlC ym mis Gorffennaf yn dilyn yr ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir.

***PGO2: Llunio ymateb drafft dros dro ar gyfer Emyr Williams, Parc Cenedlaethol Eryri, ynghylch y cais i ymuno â Fforwm Rheoli Tir Cymru (Zoe Henderson/Ruth Jenkins, CNC)***

***PG03: Rhannu manylion cais Emyr Williams, Parc Cenedlaethol Eryri, ag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider, CNC)***

***PG04: Sicrhau bod aelodaeth o Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei roi ar agenda cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider/Marc Williams, CNC)***

***PG05: Nodi a gwahodd uwch-gynrychiolydd rheoli tir LlC, a all fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru, i gyflwyno'r safbwynt cyffredinol ar bolisi, gan gynnwys ymgynghoriad rheoli tir mis Gorffennaf (Bob Vaughan, CNC)***

## Eitem 4 Diweddariad CNC

9. **Cynllun y Sefydliad:** Bydd strwythur newydd CNC yn cael ei roi ar waith ar 1 Gorffennaf 2019. Bydd y rhan fwyaf o'r tua 1,800 o staff sydd gan CNC yn eu rolau newydd erbyn mis Gorffennaf. Bwriad y broses ad-drefnu yw alinio CNC yn well â'r ddeddfwriaeth newydd (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)) yng Nghymru, a ddaeth i rym ar ôl sefydlu CNC, ynghyd â sicrhau cydnerthedd mewn perthynas â heriau cyllido ac integreiddio yn y dyfodol. Nodwyd bod yna newidiadau sylweddol i feysydd Gweithrediadau a Rheoli Tir y busnes, gyda rhai newidiadau yn rolau arweinwyr tîm a rolau uwch Rheoli Coetir. Cadwyd dyfnder da o arbenigedd technegol mewn perthynas â rheoli tir. Nodwyd y bydd Sasha Wyn-Davies yn ymuno â CNC ar 1 Gorffennaf fel Pennaeth y Tîm Masnachol, a hynny ar ôl gweithio i Horizon. Ychwanegwyd bod Pennaeth Stiwardiaeth Tir yn cael ei recriwtio ar hyn o bryd, sef pumed Pennaeth Polisi CNC, a bydd yn gyfrifol am ddaliadau tir, coedwig a llifogydd CNC.

   Amlygwyd nad oedd yna fwriad i golli staff yn rhan o broses ad-drefnu CNC, ac y byddai'r cynllun yn galluogi llawer o staff i ddatblygu eu gyrfaoedd. Nodwyd y byddai'n fuddiol gwybod pwy yw staff y timau technegol. Dywedwyd bod manylion cyffredinol y

staff technegol hyn ar gael, ond cytunwyd y byddai strwythur llawn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru, ac y byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r aelodau cyn gynted ag y byddai wedi cael ei chadarnhau.

Cafwyd trafodaeth ynghylch pa ystyriaethau yr oedd CNC wedi'u cymryd i sicrhau bod pynciau ac arbenigeddau yn cael eu plethu ledled y sefydliad er mwyn osgoi achos o staff yn gweithio mewn seilos. Eglurodd Martyn Evans na fyddai'r ailstrwythuro yn cyflawni hyn ar ei ben ei hun a bod camau'n cael eu cymryd i feithrin cysylltiadau ledled y busnes, a bod modelau gan eraill (e.e. Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban) wedi cael eu hystyried i roi pwyntiau dysgu ar waith. Eglurodd Martyn Evans mai rôl CNC yw dilyn a chyfrannu at Reoli Adnoddau Naturiol mewn modd Cynaliadwy (SMNR), yn hytrach na'i reoleiddio yn unig, a byddai hyn yn galw am weithio ar y cyd. Cafwyd ymholiad ynghylch a oedd cyllideb CNC wedi cael ei diogelu. Cadarnhawyd nad oedd cyllidebau CNC yn cael eu hamddiffyn yn ystod cyfnod o gyni, ond nodwyd bod yna arwyddion pendant y byddai LlC yn ystyried y llinellau cyllideb mewn modd cadarnhaol. Nodwyd bod CNC hefyd yn datblygu incwm masnachol i wneud iawn am bwysau Cymorth Grant er mwyn parhau â'i waith.

***PG06: Rhannu manylion ynghylch haenau staff CNC, sydd bellach mewn swyddi, ag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Martyn Evans)***

***PG07: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am strwythur llawn CNC yng nghyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru (Bob Vaughan/Martyn Evans)***

10. **Diweddariad ar Bolisi:** Cafwyd ymholiad ynghylch a oedd CNC ynghlwm â'r ymgynghoriad ar Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Brexit. Nodwyd bod yr ymgynghoriad yn ystyried a ddylid goruchwylio CNC, a chynhaliwyd trafodaeth ynghylch a ddylid cael corff annibynnol i sicrhau bod CNC yn gweithredu mewn modd priodol.

    ***PG08: Egluro a fydd CNC yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Brexit (Bob Vaughan).***

    ***PG09: Rhannu ymatebion â'r aelodau os bydd CNC yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Brexit (Ruth Jenkins/Bob Vaughan)***

11. **Diweddariad gan y Fforwm Dŵr:** Cafwyd trafodaeth ynghylch plastigau. Bydd CNC yn recriwtio swyddog Plastigau/Sbwriel Morol a bydd yn cael ei wahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Mynegodd Tudur Parry bryderon am na ellir ailgylchu plastigau fferm ar hyn o bryd a'u bod yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gostio rhwng £80-£110 y dunnell. Nodwyd nad oedd y galw am blastigau fferm o China a Malaysia yn amlwg mwyach. Dywedwyd bod yna safleoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n gallu ailgylchu plastigau fferm ond nad ydynt yn gallu ymdopi â'r swm a gynhyrchir. Amlygwyd bod angen rhoi pwysau ar y cyflenwyr i leihau faint o ddeunydd pacio plastig a ddefnyddir.

12. **Cynllunio PR19 Cwmnïau Dŵr:** Bob pum mlynedd, nodwyd bod Ofwat (y rheolydd economaidd) yn gosod terfynau prisiau sy'n galluogi cwmnïau dŵr i ariannu'r broses o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid, a hynny'n unol â safonau a gofynion

amgylcheddol perthnasol. Bydd adolygiad prisiau cyfredol Ofwat (PR19) yn dod i ben yn 2019.

Nodwyd bod CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy trwy gydol y broses PR19 i sicrhau yr eir i'r afael â'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Cyflwynodd Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy eu cynlluniau busnes PR19 i Ofwat ym mis Medi. Roedd y ddau gwmni yn bwriadu gwneud buddsoddiadau sylweddol i fynd i'r afael â'u heffeithiau amgylcheddol yn ystod y cyfnod rhwng 2020 a 2024, gan gynnwys gwneud gwelliannau i waith trin carthion er mwyn bodloni gofynion, ymchwiliadau a mesurau ansawdd dŵr Natura 2000/y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i leihau gollyngiadau o orlifiadau carthffosydd cyfun, gwelliannau i dramwyfeydd pysgod, ymchwiliadau i feithrin gwell dealltwriaeth o risg rhywogaethau estron goresgynnol, a newidiadau i'r llifoedd i lawr yr afon o gronfeydd dŵr. Nodwyd bod cynllun Dŵr Cymru yn cynnwys ymrwymiad i bedwar dalgylch peilot (sef Afan, Teifi, Clwyd ac Alyn) a fydd yn archwilio atebion arloesol a chydweithredol.

Nodwyd bod dull trosfwaol y trydydd cylch o gynllunio basn afonydd wedi cael ei nodi yn yr Ymgynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018. Gofynnodd CNC am adborth ar y rhaglen waith, yr amserlen a'r broses o gydweithio. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar Faterion Rheoli Dŵr Sylweddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dywedwyd y bydd yr ymgynghoriad ar Faterion Rheoli Dŵr Sylweddol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019, a hynny ar gyfer cyfnod ymgynghori o chwe mis. Trafodwyd y dull hwn yng nghyfarfod Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ym mis Ebrill, a bydd copi drafft o'r ddogfen yn cael ei rannu â Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn ddiweddarach ym mis Mai.

13. **Y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr:** Nodwyd bod CNC yn datblygu ei ddull o dargedu yn nhrydydd cylch y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr, ynghyd ag archwilio'r ffordd o wneud hynny ar lefel dalgylch/is-ddalgylch, gan integreiddio'r broses Datganiadau Ardal.

    Nodwyd mai nod CNC ar gyfer y trydydd cylch oedd cyflawni dull Rheoli Adnoddau Naturiol mewn modd Cynaliadwy, a oedd yn seiliedig ar leoliad, er mwn blaenoriaethu dalgylch gan hefyd sicrhau canlyniadau'r Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, nodwyd bod angen i CNC symud oddi wrth fodel cydymffurfedd y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr i ganlyniadau dalgylch mwy integredig a chynaliadwy. Byddai hyn yn golygu buddion i gynefinoedd/rhywogaethau dŵr, a'r rheiny sy'n ddibynnol ar ddŵr, a byddent yn cyd-fynd â buddion llesiant a chyfranogiad y cyhoedd yn yr hirdymor.

    ***PG10: Rhannu diweddariad ysgrifenedig Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider/Marc Williams)***

14. **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)**: Nodwyd bod CNC yn datblygu'r cynnwys ar gyfer SoNaRR2, a fydd yn datblygu yn ystod y flwyddyn bresennol, a bydd adroddiad interim yn cael ei gyflwyno i LlC ym mis Rhagfyr 2019, gyda'r bwriad o'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020. Nodwyd bod weminar wedi cael ei

threfnu ar gyfer 20 Mai i alluogi aelodau i ymgysylltu â SoNaRR2, ac ychwanegwyd bod y manylion i gymryd rhan wedi cael eu rhannu â'r grŵp.

Amonia/Ffermio Dwys: Agorodd Zoe Henderson yr eitem hon trwy egluro bod dulliau ffermio dwys weithiau'n cael eu hystyried mewn modd negyddol. Nodwyd bod unedau dwys yn cael eu rheoleiddio'n helaeth ac nad ydynt, bob amser, yn gyfrifol am yr effeithiau ar yr amgylchedd ac y gall unedau llai, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, achosi problemau o ran llygredd o bryd i'w gilydd (boed yn unigol neu ar y cyd ag eraill).

Nodwyd y bydd CNC yn paratoi ac yn cyhoeddi map/haen System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) o goetiroedd hynafol sy'n sensitif i amonia, a hynny'n seiliedig ar gofnodion diweddar o gen a bryoffytau sensitif. Bydd CNC hefyd yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer amonia yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chanllawiau ar ddatblygiadau ffermio dwys. Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am y cynllun gweithredu a'r canllawiau, gan holi a oeddent yn ategu at waith arall gan LlC a oedd yn gysylltiedig ag amonia, e.e. y Cod Ymarfer Amaethyddol Da: Lleihau allyriadau Amonia.

Dywedwyd bod gwaith prosiect yn cael ei wneud yn CNC i greu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y llygredd sy'n deillio o allyriadau amonia yn sgil ffermio da byw yng Nghymru. Nodwyd bod model wedi cael ei ddatblygu i amlygu'r effeithiau o roi mesurau lleihau ar waith ar gyfer ffermydd o fathau a meintiau gwahanol. Ychwanegwyd nad oedd adroddiad terfynol y gwaith prosiect hwn ar gael eto, ond y bydd yn cael ei rannu â'r grŵp cyn gynted â phosibl.

***PG11: Rhoi manylion ychwanegol i'r aelodau mewn perthynas â'r cynllun gweithredu/canllawiau ar amonia yn rhan o ddatblygiadau ffermio dwys (Simon Bareham, CNC)***

***PG12: Nodi'r berthynas rhwng y gwaith prosiect ffermio dwys â'r gwaith amonia arall a wnaed gan LlC (Alison Soper, CNC)***

***PG13: Rhannu adroddiadau Ffermio Dwys â'r aelodau unwaith y byddant ar gael (Helen Haider, CNC)***

Mynegodd Dennis Matheson bryderon y byddai canlyniadau’r gwaith prosiect yn arwain at reoleiddio pellach ar gyfer ffermwyr, a hynny heb ganolbwyntio ar y nwyddau cyhoeddus a ddarperir gan ffermwyr. Amlygodd Zoe Henderson bwysigrwydd defnyddio tystiolaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

15. **Afancod:** Nodwyd bod CNC yn cwblhau adroddiad arolwg ar afancod Afon Gwy. Ychwanegwyd bod adroddiadau newyddion diweddar wedi bod ynghylch sicrhau amddiffyniad cyfreithiol llawn i afancod yn yr Alban. Nodwyd nad oedd hyn yn berthnasol i Gymru ar hyn o bryd a bod CNC wedi gofyn i LlC beth yw ei bwriad mewn perthynas ag amddiffyn afancod yng Nghymru. Ychwanegwyd nad oes unrhyw newid i statws afancod yng Nghymru ar hyn o bryd, a hynny hyd nes bod LlC/Defra yn penderfynu eu hychwanegu at y Rheoliadau Cynefinoedd. Dywedodd NFU Cymru na ddylai'r adroddiad nodi a yw afancod yn bresennol ai peidio yn unig, ond y dylai hefyd fanylu ar y camau nesaf, er enghraifft o ran bioddiogelwch. Amlygodd NFU Cymru

hefyd y dylid cynnal ymgynghoriad llawn pe bai yna ystyriaeth i gyflwyno eryrod, ac awgrymwyd isafswm o chwe wythnos ar gyfer y cyfnod ymgynghori.

16. **Datganiadau Ardal:** Rhannwyd Cynnig Ymgysylltu Cenedlaethol Drafft ar gyfer Fforwm Rheoli Tir Cymru â'r aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd bod yna gyfnod ymgysylltu o chwe mis yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid, gan ymgorffori awydd aelodau i fod yn bartneriaid cyflenwi ar gyfer y datganiadau ardal. Ychwanegwyd y bydd prosesau ymgysylltu lleol a chenedlaethol yn cael eu cynnal ar gyfer y datganiadau ardal. Bydd prif nod y broses ymgysylltu â Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cynnwys:

- Cyflawni gweledigaeth a rennir gan sicrhau ymrwymiad a chyfranogiad.
- Ymgysylltu â'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r Themâu sy'n Dod i'r Amlwg.
- Helpu i nodi cyfleoedd gofodol i sicrhau buddion amrywiol.
- Helpu i lywio trafodaethau lleol a darpariaeth gydweithredol.
- Helpu i lywio'r SoNaRR a'r Polisi Cenedlaethol nesaf.

Amlygodd NFU Cymru fod datganiadau ardal yn gysyniad haniaethol i'w aelodau ac y dylid rhoi ystyriaeth i faterion eraill a oedd ar y gorwel, e.e. cynllun rheoli tir y dyfodol. Mynegwyd pwysigrwydd sicrhau bod ffermwyr yn gweld y fantais o ymgysylltu â'r datganiadau ardal. Cytunodd yr aelodau y byddai defnyddio trydydd parti i ymgysylltu ar lefel leol o gymorth (e.e. Cyswllt Ffermio).

Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y byddai'r datganiadau ardal yn rhyngweithio â chynllun rheoli tir y dyfodol. Nodwyd bod angen rhoi dull uniongyrchol, pwrpasol ac wedi'i deilwra ar waith er mwyn ymgysylltu â ffermwyr. Trafododd yr aelodau bwysigrwydd sicrhau bod y sector amaethyddol yn ymwybodol o'r datganiadau ardal diweddaraf. Cytunwyd y byddai gwaith cyfathrebu yn cael ei wneud i feithrin naratif a fydd yn annog ymgysylltiad gan yr aelodau, ac y byddai'r posibilrwydd o drefnu digwyddiadau lleol yn cael ei archwilio, efallai trwy ddefnyddio trydydd parti tebyg i Cyswllt Ffermio. Nodwyd y byddai CNC yn cysylltu â'r aelodau ynghylch y posibilrwydd o sefydlu gweithgor bach mewn perthynas â'r datganiadau ardal, a hynny ar y cyd â Phenaethiaid Lle eraill CNC.

***PG14: Mynd ati i ddrafftio naratif addas yn egluro pwrpas y Datganiadau Ardal er mwyn annog aelodau i gymryd rhan yn y broses (Russell De'Ath, CNC/Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru/Bernard Griffiths, UAC)***

***PG15: Archwilio'r posibilrwydd o drefnu digwyddiadau lleol i ffermwyr er mwyn eu hannog i ymgysylltu â'r datganiadau ardal, a hynny yn rhan o'r broses ymgysylltu genedlaethol (Rheolwyr Gweithrediadau, CNC/Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru/Bernard Griffiths, UAC)***

***PG16: Rhannu manylion â'r aelodau ynghylch y cyfarfodydd datganiadau ardal sy'n seiliedig ar y sector (Martyn Evans, CNC)***

***PG17: Llunio cynllun drafft/siart sefydliadol yn amlygu'r modd y mae'r holl grwpiau ymgysylltu â'r datganiadau ardal yn cydblethu â'i gilydd (Russell De'Ath, CNC)***

## Eitem 5 Trwyddedau Cyffredinol

17. Yn dilyn her gyfreithiol, nodwyd bod Natural England wedi adolygu ei safbwynt ar drwyddedau cyffredinol. Dywedwyd bod Trwyddedau Cyffredinol ar gael gan CNC i roi sail gyfreithiol i bobl ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud â bywyd gwyllt mewn modd cyfreithlon. Ychwanegwyd bod Trwyddedau Cyffredinol ar gael i roi rheolaeth angheuol ar waith mewn perthynas ag adar gwyllt penodol mewn sefyllfaoedd arbennig, er enghraifft i ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd, i amddiffyn cnydau neu dda byw, neu i sicrhau cadwraeth rhywogaethau eraill. Dim ond pan fetho popeth arall y caniateir lladd adar gwyllt ar ôl cael y trwyddedau hyn, a hynny pan na lwyddodd yr un dull arall i ddatrys y broblem. Nodwyd nad oes angen i unigolion wneud cais am Drwyddedau Cyffredinol, ond ei bod yn ofynnol iddynt, yn ôl y gyfraith, i gadw at eu telerau ac amodau.

18. Nodwyd bod CNC yn adolygu canlyniad y broses yn Lloegr ac yn ymgynghori â'i gynghorwyr cyfreithiol. Os bydd angen i CNC adolygu ei ddull gweithredu, dywedwyd y bydd yn cydweithio â rhanddeiliad i sicrhau bod dull gweithredu effeithiol, cymesur a chyfreithlon yn cael ei roi ar waith. Nodwyd y bydd cyfarfod o fwrdd CNC yn cael ei gynnal ar 22 Mai i benderfynu sut yr eir i'r afael â'r mater hwn.

## Eitem 6 Adborth gan Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru

19. Cytunwyd y byddai diweddariadau ysgrifenedig gan Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael eu rhannu ag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru er mwyn osgoi achosion o ddyblygu wrth rannu gwybodaeth.

***PG18: Rhannu diweddariad ysgrifenedig Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru â'r aelodau (Helen Haider, CNC)***

## Eitem 7 Rhaglen Creu Coetir CNC

20. Gan nad oedd cynrychiolwyr o'r sector coedwigaeth ar gael i fod yn bresennol yn y cyfarfod, cytunwyd y byddai diweddariad ysgrifenedig yn cael ei rannu â'r aelodau.

***PG19: Rhannu'r diweddariad ar goetir â'r aelodau (Helen Haider, CNC)***

## Eitem 8 Diweddariad gan y Fforymau Dŵr a Physgodfeydd

21. **Y Fforwm Pysgodfeydd:** Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Fforwm Pysgodfeydd, a thrafodwyd yr aelodaeth. Nodwyd y byddai Dŵr Cymru yn cael ei wahodd i ymuno â'r fforwm a bod yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt yn awyddus i ymuno â'r grŵp. Bydd cynrychiolydd o'r sector amaethyddol yn cael ei wahodd i gyfarfod nesaf y Fforwm Pysgodfeydd.

Amlygodd yr aelodau bwysigrwydd osgoi achosion o ddyblygu ymhlith y fforymau gwahanol ac, yn benodol, y posibilrwydd o fynd i'r afael â materion tebyg i lygredd amaethyddol sydd eisoes yn cael sylw trwy gyfrwng Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru. Nodwyd y budd o amlinellu cylch gorchwyl Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru/Fforwm Rheoli Tir Cymru i'r fforymau eraill.

***PG20: Rhoi adborth ar gylch gorchwyl a gwaith Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i'r fforymau eraill (Pysgodfeydd/Dŵr) er mwyn osgoi achosion o ddyblygu (Zoe Henderson)***

***PG21: Mynd i gyfarfod nesaf y Fforwm Pysgodfeydd i ddisgrifio'r gwaith a wneir gan Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru/Fforwm Rheoli Tir Cymru (Zoe Henderson)***

22. **Fforwm Rheoli Dŵr Cymru:** Cynhaliwyd cyfarfod o Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar 9 Ebrill, a chanolbwyntiwyd ar Gylch Gorchwyl y grŵp, gan gytuno ar hynny. Roedd yr aelodau yn awyddus i beidio â dyblygu rolau ledled y fforymau gwahanol. Nodwyd bod cydgysylltwyr y fforymau yn CNC yn anelu at sicrhau bod y grwpiau yn rhannu allbynnau a dulliau gweithredu. Bydd cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf.

## Eitem 9 Golwg i'r Dyfodol

23. Disgwylir y bydd dogfen ddilynol Ymgynghoriad Brexit a'n Tir yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf.

24. Cafwyd trafodaeth ynghylch Prosiect Llaeth CNC a rhoddwyd adborth ar y swyddogion. Nodwyd y bydd diweddariad llawn ar y prosiect yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 23 Mai.

## Eitem 10 Unrhyw Fater Arall

***PG22: Rhannu manylion â'r aelodau ynghylch y cynlluniau i blannu er cof am Martin Bishop (Martyn Evans, CNC)***

## Diwedd y Cyfarfod